



**CYNGOR BRO MORGANNWG,  
SWYDDFEYDD DINESIG, HEOL HOLTON,  
Y BARRI CF63 4RU**

**HYSBYSIAD STATUDOL O GYNYDDU LLEOEDD YSGOL UWCHRADD  
CYFRWNG CYMRAEG O 1361 O LEFYDD I 1660 O LEFYDD DRWY  
EHANGU YSGOL GYMRAEG BRO MORGANNWG O FIS MEDI 2020**

**FE'CH HYSBYSIR** drwy hyn yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniant Ysgolion bod Cyngor Bro Morgannwg, ar ôl ymgynghori â'r unigolion perthnasol, yn cynnig ehangu Ysgol Gymunedol Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, Colcot Road, Y Barri CF62 8YU ar ei safle o 1361 o lefydd i 1660 o leoedd o fis Medi 2020 i ddiwallu'r galw cynyddol am lefydd ysgol uwchradd. Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Bro Morgannwg.

Bydd yr ysgol yn parhau i gael ei chynnal gan Gyngor Bro Morgannwg ar ôl ei ehangu.

Cynhaliodd Cyngor Bro Morgannwg gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Ceir copi o adroddiad yr ymgynghoriad yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigiwr a barn Estyn ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ar y ddolen ganlynol: [www.valeofglamorgan.gov.uk/welshmediumexpansion](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/welshmediumexpansion)

Bwriedir gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2020.

Cyngor Bro Morgannwg fydd yn gweithredu fel awdurdod derbyn. 30 yw'r nifer derbyn ar gyfer disgyblion 4/5 oed ym mis Medi 2020, sef y flwyddyn ysgol gyntaf y bydd y cynnig yn weithredol. Ar gyfer disgyblion 11/12 oed yn 2020, 210 yw'r nifer derbyn oherwydd bydd 30 o ddisgyblion blwyddyn 6 yn trosglwyddo i Flwyddyn 7 yn awtomatig; bydd cyfanswm o 240 o leoedd blwyddyn 7 ar gael. Nid yw dethol yn ôl gallu (bandio disgyblion) yn berthnasol i'r trefniadau derbyn.

Mae 1021 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Bydd capasiti disgyblion yr ysgol yn cynyddu o 1,361 o lefydd (210 o lefydd yn y cyfnod cynradd a 1,151 yn y cyfnod uwchradd) i 1,660 o lefydd yn 2020 (210 yn y cyfnod cynradd a 1,450 yn y cyfnod uwchradd).

Mae'r trefniadau teithio Dysgwyr Cymru Gyfan yn berthnasol i gymhwysedd disgyblion am drafnidiaeth i ac o'r ysgol os ydynt yn byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol ddalgylch agosaf neu ddynodedig. Diffinnir pellter cerdded fel dwy filltir i blant oed cynradd, a thair milltir i blant oed uwchradd, fel a fesurwyd yn ôl y llwybr agosaf sydd ar gael. Nis effeithir ar drefniadau trafnidiaeth ysgolion, cymhwysedd na hygyrchedd gan y cynnig hwn.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynnig hyn, sef 14 Tachwedd 2016, gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau Dros Dro, Cyngor Bro Morgannwg, Tŷ Provincial, Kendrick Road, Y Barri CF62 8BF neu e-bostio [JMJones@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JMJones@valeofglamorgan.gov.uk)



Llofnod:

Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau Dros Dro  
17 Hydref 2016

### **NODYN ESBONIADOL - nid yw'n rhan o'r hysbysiad statudol**

Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn ysgol 3-19 sy'n cynnig darpariaeth i blant oed cynradd ac uwchradd. Ar hyn o bryd mae 1,361 o leoedd ar gael yn yr ysgol ac o'r rhain mae 210 o leoedd yn y cyfnod cynradd a 1,151 yn y cyfnod uwchradd.

Mae'r Cyngor yn cynnig cynyddu nifer y llefydd ysgol uwchradd o 1,151 o lefydd i 1,450 o lefydd ym mis Medi 2020 i fodloni'r galw cynyddol am leoedd ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg oherwydd y cynnydd a amcangyfrifir yn nifer y disgyblion fydd yn bwydo i'r ysgol o'r sector cynradd. Bydd capasiti cyffredinol yr ysgol yn cynyddu o 1,361 o lefydd (210 o lefydd yn y cyfnod cynradd a 1,151 yn y cyfnod uwchradd) i 1,660 o lefydd yn 2020 (210 yn y cyfnod cynradd a 1,450 yn y cyfnod uwchradd).

Bydd yr ysgol yn cynnig 30 o lefydd fesul grŵp blwyddyn yn y cyfnod cynradd a 240 yn y cyfnod uwchradd. Bydd gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 1,660 o lefydd. Mae gan yr ysgol ddsbarth derbyn le hefyd ar gyfer 52 o blant yn y cyfnod cynradd.

Y Cyngor yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol. Bydd trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol wedi'i chyfuno yn parhau heb eu newid. Bydd ysgolion oed cynradd yr ysgol yn trosglwyddo o flwyddyn 6 i flwyddyn 7 heb orfod gwneud cais am le ysgol uwchradd.